Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Reoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoleiddiol a Chwynion) (Cymru) 2006

1. Ystyriodd y Pwyllgor y Rheoliadau uchod yn ei gyfarfod ar 28 Medi 2006. Cawsant eu hystyried yn unol â'r protocol ar gyfer delio ag is-ddeddfwriaeth y cytunodd y Pwyllgor arno ar 11 Mehefin 2003, lle mae'r Aelodau yn rhoi gwybod ymlaen llaw am unrhyw gwestiynau neu welliannau sydd ganddynt yng nghyswllt y Rheoliadau.

2.Nid oedd unrhyw welliannau na phwyntiau i'w hegluro wedi'u codi ymlaen llaw. Fodd bynnag, atebodd y Gweinidog fel a ganlyn i gwestiynau a gododd yr Aelodau yn ystod y cyfarfod:

- Cadarnhaodd fod y rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i gartrefi gofal roi gwybod i achwynyddion posibl o'u hawl i eiriolaeth.
- Drwy gynnal archwiliadau'n seiliedig ar risg gellid sicrhau bod yr archwiliad yn canolbwyntio ar feysydd gwasanaeth lle'r oedd problemau, a gellid bod yn fwy gwyliadwrus o ran problemau posibl. Byddai Arolygaeth Safonau Gofal yn defnyddio dulliau hunanasesu fel rhan o'r broses o ddewis gwasanaethau i'w harolygu.

3. Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y rheoliadau drafft.

Rhodri Glyn Thomas AM
Cadeirydd
Medi 2006